



Ein cyf/Our ref:

[rsmytherman@gmail.com](mailto:rsmytherman@gmail.com)

11 Mai 2022

Annwyl Bob,

Roeddwn am ysgrifennu'n uniongyrchol at aelodau eich grŵp i nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd i wella diogelwch adeiladau fel y gall pobl deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.

Gwn fod llawer o adroddiadau wedi bod yn y cyfryngau yn dilyn cyhoeddiadau amrywiol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Michael Gove, sy'n ymwneud â Lloegr. Gall hyn ei gwneud yn anodd deall beth sy'n digwydd yng Nghymru. Efallai y bydd gennych gwestiynau hefyd ynghylch a fyddwn yn gwneud pethau tebyg yng Nghymru ac am gynnydd cynlluniau, megis Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed ar ddull adeilad cyfan o ymdrin â diogelwch adeiladau – i *atgyweirio* diffygion a *diwygio* safonau diogelwch adeiladau – mewn adeiladau sy'n codi'n uchel ac yn ganolog.

Mae ein rhaglen atgyweirio yn mynd y tu hwnt i osod cladin allanol newydd yn unig. Mae'n cynnwys systemau compartmentau, rhybuddio am dân a gwacáu a llethu.

Mae'r dull adeiladau cyfan hwn yn rhoi diogelwch pobl yn gyntaf ond mae'n fwy cymhleth nag un sy'n delio â chladin yn unig. Mae hefyd yn ddrutach. Rydym wedi clustnodi £375m dros y tair blynedd nesaf i fuddsoddi mewn gwaith atgyweirio – mae hyn ddwywaith y gyfran o'r boblogaeth o'r hyn y mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn bwriadu ei wario mewn ardaloedd cyfatebol yn Lloegr yn y cyfnod hwn.

Wrth wraidd ein dull gweithredu mae'r gred sylfaenol y dylai datblygwyr gyfrannu at gostau datrys y problemau hyn. Ni ddylai lesddeiliaid a phreswylwyr orfod talu'r bil.

## **Atgyweirio**

Mae ein rhaglen atgyweirio ar y gweill nawr. Mae tri phrif gynllun yn gysylltiedig â'r canlynol:

1. Atgyweirio cladin nad yw'n cydymffurfio mewn adeiladau uchel
2. Cronfa Diogelwch Adeiladu Cymru
3. Y Cynllun Cymorth Lesddeiliaid

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn sgil tân Grenfell, canfuwyd bod gan 12 o adeiladau preswyl uchel iawn (18m) yn y sector preifat a thri yn y sector cymdeithasol (18m) yng Nghymru gladin ACM nad oedd yn cydymffurfio. Mae gwaith i ddileu a newid cladin ACM nad yw'n cydymffurfio wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ar y tri adeilad preswyl uchel yn y sector cymdeithasol. Darparwyd £3m gennym i gwblhau'r gwaith hwn.

Mae gwaith naill ai wedi dechrau, neu mae cynlluniau gweithredu ar waith i ddatblygu gwaith, ar y 12 adeilad yn y sector preifat. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ariannu gan berchnogion a datblygwyr adeiladau.

Ym mis Medi 2021 agorwyd **Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru** ar gyfer adeiladau preswyl 11m neu uwch. Fe'i cynlluniwyd i gwmpasu unrhyw waith angenrheidiol a helpu i flaenoriaethu adeiladau ar gyfer gwaith atgyweirio.

Cawsom 248 o ddatganiadau o ddiddordeb ac rydym bellach wedi cwblhau arolygon digidol ar yr adeiladau hynny i benderfynu a oes angen arolygon mwy ymwithiol. Mae mwy na 100 o adeiladau wedi'u nodi ar gyfer yr arolygon ymwithiol pellach hyn. Rydym yn disgwyl i'r gwaith arolygu hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd yr haf.

Yr arolygon hyn yw'r ffordd i adeiladau sydd am gael cymorth ei dderbyn ar gyfer gwaith atgyweirio ac adfer. Fel y dywedais ar ddechrau'r llythyr hwn, yr ydym yn mabwysiadu dull adeiladau cyfan oherwydd dyma'r unig ffordd o sicrhau bod yr holl waith sy'n angenrheidiol i sicrhau bod adeilad yn cydymffurfio â diogelwch tân yn cael ei gwblhau ac yn amddiffyn preswylwyr a lesddeiliaid rhag wynebu costau ychwanegol sylweddol.

Rydym wedi clustnodi £375m dros y tair blynedd nesaf i fuddsoddi mewn gwaith diogelwch adeiladau a chredwn na ddylai lesddeiliaid orfod talu tuag at yr atgyweiriadau hyn.

Rydym wrthi'n cwblhau cynlluniau i greu **Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid**. Byddai hon yn gronfa i lesddeiliaid sy'n wynebu caledi ariannol difrifol o ganlyniad i gostau sy'n ymwneud â diffygion adeiladu.

Mae'r gronfa'n cael ei chynllunio i helpu'r bobl hynny sy'n cael trafferthion ariannol ac yn methu â gwerthu eu heiddo oherwydd costau cynyddol sy'n gysylltiedig â materion diogelwch tân. Bydd yn rhoi mynediad i lesddeiliaid cymwys at y cymorth cywir i fodloni eu hamgylchiadau unigol, gan gynnwys opsiwn i werthu eu heiddo a, lle y bo'n briodol, i naill ai symud ymlaen neu rentu'r eiddo yn ôl. Rwy'n gobeithio gallu cyhoeddi rhagor o fanylion yn fuan a dechrau'r cynllun ym mis Mehefin.

## **Diwygio**

Mae ein gwaith o ddiwygio diogelwch adeiladau fel nad ydym yn ailadrodd yr un camgymeriadau, a arweiniodd at dân Grenfell, eisoes ar y gweill. Rydym yn gweithio i newid y fframwaith diwylliannol a deddfwriaethol yng Nghymru yn sylfaenol ac yn gynhwysfawr er mwyn cynllunio ar gyfer risgiau diogelwch tân ar gyfer cylch bywyd adeiladau yn y dyfodol.

Mae gennym hanes hir o ddiwygio rheoliadau adeiladu – ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i basio deddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i systemau chwistrellu tân gael eu gosod mewn cartrefi newydd a chartrefi wedi'u haddasu yng Nghymru yn 2013. Cyhoeddwyd ymgynghoriad Papur Gwyn ar ddiogelwch adeiladau yng ngwanwyn 2021. Bydd yr adborth o hyn yn arwain at ddatblygu Bil Diwygio Diogelwch Adeiladau, a fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod tymor y Senedd.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio deddfwriaeth diogelwch adeiladau'r DU, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr.

Mae hyn yn cynnwys newidiadau i Ddeddf Diogelwch Tân 2021 a chydweithio ar Ddeddf Diogelwch Adeiladau'r DU 2022, a ddaeth i rym ym mis Hydref 2021 ac Ebrill 2022 yn y drefn honno.

Efallai eich bod wedi darllen yn ddiweddar fod **addewid datblygwr** wedi'i gyflwyno yn Lloegr a rhestr o'r rheini sydd eisoes wedi ymrwmo i'r addewid. Yr oeddwn yn siomedig iawn pan gyhoeddodd Michael Gove hyn oherwydd rwyf wedi bod yn gweithio gydag ef ers amser maith i gyflwyno addewid ledled y DU. Byddai "addewid" yn y DU yn ymrwmo datblygwyr i atgyweirio adeiladau yr oeddent yn ymwneud â'u datblygu.

Gallai penderfyniad Mr Gove i gyflwyno addewid ar gyfer Lloegr yn unig ei gwneud yn anos sicrhau bod pob datblygwr yn cymryd ei gyfrifoldebau i gyfrannu tuag at gostau datrys problemau diogelwch adeiladau yng Nghymru o ddifrif, ac ysgrifennais ato i fynegi fy mhryderon cryf am y mater hwn.

Ers hynny, rydym wedi derbyn llythyr gan Michael Gove, yn rhoi sicrwydd o'r newydd o gydweithio.

Er budd perchnogion tai, lesddeiliaid a thenantiaid Cymru, byddaf yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am y canlynol:

1. Newid yn y llythyrau addewid gyda datblygwyr ac yn y cytundebau cyfreithiol manwl dilynol o "heb unrhyw ragfarn i wledydd eraill" i ymrwymiad cyfatebol a chymesur i hunan-adfer ar draws y Deyrnas Unedig.
2. Bod Llywodraeth y DU yn ymdrechu'n galetach i gyflwyno cynllun Yswiriant Indemniad Proffesiynol credadwy, fforddiadwy ledled y DU gyfan eleni, ac yn comisiynu gwaith i gefnogi creu cynllun yswiriant cydymaith ar gyfer ardystio gwaith adfer sy'n cynnwys agweddau perthnasol ar ddiogelwch tân.
3. Ein swyddogion i gysylltu'n uniongyrchol â datblygwyr a chyrrff Cyllid y DU fel dull pragmatig o gynnwys anghenion Llywodraethau Datganoledig.
4. Sicrwydd y bydd y Llywodraethau Datganoledig yn cael pob cefnogaeth i ymestyn cyflwyno'r Ardoll Diogelwch Adeiladu.
5. Cymorth gan yr Ysgrifennydd Gwladol Gove i geisio cyllid cyfalaf ac adnoddau sylfaenol ychwanegol gan Drysorlys EM dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant y DU.

Efallai yr hoffech chi a'ch aelodau hefyd bwysu ar eich Aelodau Seneddol lleol ar y mater hwn.

Mae llawer o waith yn cael ei wneud yng Nghymru i gywiro materion diogelwch adeiladau, ac mae eich aelodau'n byw gyda hwy bob dydd. Byddaf yn parhau i gadw mewn cysylltiad wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change